Cofnodion Cyfarfod CYNGOR SIR CEREDIGION a gynhaliwyd yn Neuadd y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy gyfrwng fideo-gynadledda ar ddydd Iau, 21 Mawrth, 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Maldwyn Lewis (Cadeirydd), Cynghorwyr Shelley Childs, Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Hugh Hughes, Chris James, Gwyn James, Ceris Jones, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, John Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams a Carl Worrall.

(10.00am - 12.05pm)

Gweithdrefn
Croesawodd Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Ifan Davies, bawb i'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu.

1 Ymddiheuriadau
Dim

2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

a) Datgelodd Cadeirydd y Cyngor fuddiant personol ar ran yr holl Gynghorwyr mewn perthynas ag eitem 6 isod. Cytunodd y Cynghorwyr;
b) Datgelodd y Cynghorwyr Maldwyn Lewis, Euros Davies, Gareth Davies, Endaf Edwards, Elaine Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge a Gwyn James fuddiant personol a rhagfarnol mewn perthynas ag eitem 7 isod gan adael y cyfarfod yn ystod y trafodaethau;
c) Datgelodd y Cynghorydd Caryl Roberts fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 10;
d) Datganodd y Prif Weithredwr, ar ran yr holl Uwch Swyddogion a oedd yn bresennol, fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas â chofnod 7 isod, yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol. Gadawodd yr aelodau hynny o staff y cyfarfod yn ystod y trafodaethau. Arhosodd Liz Merriman, Rheolwr Corfforaethol Pobl a Threfniadaeth, y swyddog a oedd yn cymryd cofnodion, a'r cyfieithydd yn y cyfarfod yn ystod y trafodaethau.

3 Cyhoeddiadau'r Cadeirydd
Gwnaeth y Cynghorydd Maldwyn Lewis, Cadeirydd y Cyngor, estyn cydymdeimlad ar ran y Cyngor i deuluoedd a ffrindiau Callum Wright a Llŷr Davies ar eu profedigaeth ddiweddar.

Estynnodd gydymdeimlad hefyd i deulu'r Parch Goronwy Evans, Llambed, ar eu profedigaeth ddiweddar.

Gwnaeth y Cyngor gynnal munud o dawelwch.

Llongyfarchodd y Cadeirydd Vaughan Gething wedi iddo gael ei benodi fel Prif Weinidog Cymru, ac estynnwyd ei ddymuniadau gorau at Mark Drakeford yn dilyn 5 mlynedd yn y swydd.

Gwnaeth y Cynghorydd Bryan Davies ategu sylwadau'r Cadeirydd mewn perthynas â Vaughan Gething a'i benodiad diweddar fel Prif Weinidog Cymru, gan nodi y byddai'n ei wahodd i ymweld â Cheredigion yn y dyfodol agos.

Gwnaeth longyfarch Prifysgol Aberystwyth ar ennill y 'Rhyngol' am y tro cyntaf mewn 9 blynedd, a dymunodd yn dda i Jeremy Turner, Arad Goch ar ei ymddeoliad.

Gwnaeth y Cadeirydd hefyd longyfarch Deian Gwynne a Steffan Jones ar ennill eu cap rygbi cyntaf dros dîm dan 18 Cymru, gan guro'r Alban o 43 pwynt i 10 yn ystod eu gêm gyntaf, cyn teithio i Iwerddon ac ennill eto o 27 pwynt i 19.

Gwnaeth longyfarch Clwb Ffermwyr Ifanc Felinfach ar ennill cystadleuaeth Drama Cymru; Bleddyn Thomas ar gael ei enwebu fel yr actor gorau yn yr adran Gymraeg; Gwern Thomas o Felinfach ar gael ei enwebu fel 'Ffermwr Ifanc', Mared Lloyd Jones o Landdewi fel Brenhines a'i dirprwyon, Meleri Morgan o Langeitho, Mared Jones o Felinfach, Angharad Davies o Benparc a Carys Morris o Landdeiniol.

Gwnaeth hefyd longyfarch Josh a Finn Tarling a fydd yn cynrychioli Prydain ar y 7fed Ebrill yn y ras undydd o fri o Baris i Roubaix, ac fe wnaeth hefyd longyfarch Ysgol Bro Pedr ac Ysgol Bro Teifi a fu'n cymryd rhan mewn twrnamaint rygbi diweddar yn Stadiwm y Principality ac i Ysgol Bro Teifi ar ennill y digwyddiad.

Gwnaeth y Cynghorydd ymddiheuro am iaith anweddus a ddefnyddiwyd mewn cyfarfod blaenorol o'r Cyngor gan nodi y byddai'n fwy gofalus yn y dyfodol.

4 Cofnodion Cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2024 a 29 Chwefror 2024

PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2024 a 29 Chwefror 2024 fel rhai cywir, yn amodod ar gywiro dyddiad yn y fersiwn Gymraeg i gyfarfod 29 Chwefror i ddarllen 29 Chwefror yn hytrach na 29 Mawrth 2024.

Materion yn codi
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 Adroddiad y Swyddog Arweinol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd ar y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Pobl a Threfniadaeth yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi fod holl Gynghorwyr Cymru ar hyn o bryd yn cael eu hethol trwy ddefnyddio'r system fwyafrifol syml, sy'n

cael ei adnabod yn fwy cyffredin fel y System Bleidleisio Cyntaf i'r Felin sydd hefyd yn fecanwaith gyfredol sy'n cael ei ddefnyddio gan Llywodraeth Cymru a'r DU. Fe nododd, os bydd y Cyngor yn pleidleisio i newid i'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, y byddai angen ymgynghoriad cyhoeddus a phleilais i ddilyn gyda chefnogaeth 2 allan o 3 yr Aelodau. Fe nododd y byddai newid y mecanwaith bleidleisio yn effeithio ardaloedd gwledig yn fwy nag ardaloedd sydd â phoblogaeth uwch gan y byddai pob ward yn cael eu cynrychioli gan rhwng 3 i 6 Aelod yr un, ac na fyddai cyfyngiad ar glwstwr o gynrychiolwyr mewn un ardal fechan o ward fwy.

Nododd sawl Aelod na fyddai'n addas i 38 Cynghorwr benderfynu ar newidiadau o raddfa fawr heb ymgynghori â thrigolion. Nodwyd nad refferendwm fyddai hwn, ond mae ganddynt ofyniad democrataidd i ymgynghori. Gwnaeth yr Aelodau hefyd uwcholeuo eu pryderon mewn perthynas â chynnal ymgynghoriad cyn i'r wybodaeth fod ar gael ar yr effaith y gallai hyn ei gael ar Ffiniau Wardiau sydd eisoes wedi cael llawer o newidiadau arwyddocaol; byddai goblygiadau ariannol newid y system bleidleisio yn cwympo ar drethdalwyr Ceredigion gan na fyddai'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru; byddai amseriad yr ymgynghoriad yn cyd-redeg gydag ymgynghoriadau eraill ynghylch arbedion i'r gyllideb, a'r effaith y gallai hyn ei gael ar adnoddau ac amser Swyddogion.

Nododd y Cynghorydd Alun Williams bod y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn cael ei hystyried yn system decach, gan nodi bod gan y Ceidwadwyr 16% yn fwy o seddi na phleidleisiau yn San Steffan er na enillwyd y mwyafrif o bleidleisiau, a bod gan y Blaid Lafur 10% mwy o seddi na phleidleisiau o fewn Llywodraeth Cymru. Nododd bod y gwahaniaethau rhwng pleidleisiau a seddi yng Ngheredigion yn yr etholiad diwethaf dan system bleidleisio Y Cyntaf l'r Felin yn llai na 4% ar gyfer pob grŵp. Felly, daeth i'r casgliad nad oes unrhyw anghyfiawnder etholiadol y mae angen ei gywiro; er hyn, mae nifer o drigolion wedi dangos diddordeb mawr yn y mater, ac er gwaethaf y pryderon trefniadaeth a gweithredol na ellir eu gwadu, nododd y byddai'n briodol ymgynghori â'r trigolion hyn beth bynnag fo'r canlyniad.

Yn dilyn trafodaeth a phleidlais, **PENDERFYNWYD** cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar newid posibl i'r system bleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cyngor Sir, sef ei newid i'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy**.**

6 Adroddiad y Swyddog Arweinol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd ar Restr Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau 2024/25

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Pobl a Threfniadaeth yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod y penderfyniadau ynghylch tâl aelodau yn cael eu gwneud gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol , nad yw o fewn rheolaeth y Cyngor ac y dylai unrhyw Aelod sy'n dymuno ildio'i dâl gysylltu yn ysgrifenedig â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd.

Ategwyd hyn gan y Cynghorydd Gareth Lloyd, a nododd y Cynghorydd Elizabeth Evans fod y tâl yn cael ei dalu ar 3 diwrnod yr wythnos, a bod yr

holl weithgareddau ychwanegol a digwyddiadau cymunedol yn cael eu mynychu yn ystod amser hamdden yr Aelodau.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo'r canlynol:

1. Parhau â'r arfer presennol o beidio â thalu costau teithio wrth gyflawni dyletswyddau yn yr etholaeth;
2. Cymeradwyo bod y lwfansau teithio, cynhaliaeth, llety dros nos a pharcio ceir yn 2024/25 yn parhau ar yr un lefelau ag yr oeddent yn 2023/24;
3. Parhau â'r cynllun lwfans misol y gellir optio i mewn iddo gydag uchafswm o £10 i dalu am gostau ffôn, band eang a phostio;
4. Adlewyrchu talu'r lwfans hwn yn y Datganiad Taliadau blynyddol a wneir i Aelodau;
5. Talu ffioedd i Aelodau Cyfetholedig yn amodol ar uchafswm cyfwerth â 10 diwrnod llawn ar gyfer pob pwyllgor y cafodd unigolyn ei gyfethol iddo ar sail taliad hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn;
6. Parhau i gyhoeddi cyfanswm y swm a ad-dalwyd gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn heb ei bennu'n benodol i unrhyw Aelod a enwyd o ran y costau gofal a ad-dalwyd;
7. Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ar gyfer 2024/2025, yn amodol ar gynnwys unrhyw newidiadau y penderfyna'r Cyngor arnynt yn y cyfarfod hwn; ac
8. Awdurdodi'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd i gynnwys unrhyw newidiadau cyn cyhoeddi'r ddogfen ar ôl y Cyfarfod Blynyddol sydd i'w gynnal ar 17 Mai 2024.

7 Adroddiad gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth ar y Polisi Cyflogau ar gyfer 2024/25

Gadawodd y Cynghorwyr Maldwyn Lewis, Euros Davies, Gareth Davies, Endaf Edwards, Elaine Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge a Gwyn James a'r holl Uwch Swyddogion y cyfarfod yn ystod y trafodaethau.

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Pobl a Threfniadaeth yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gymeradwyo Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer pob blwyddyn ariannol i'w gyhoeddi erbyn 31 Mawrth.

Tynnodd Liz Merriman, Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Threfniadaeth sylw hefyd at y ffaith bod y cymal ailgyflogaeth yn berthnasol i'r holl staff, nid dim ond staff addysgu.

Yn dily pleidlais, **PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo Polisi Tâl Ceredigion ar gyfer 2024/2025.

8 Adroddiad y Swyddog Arweinol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd ar ar we-ddarlledu cyfarfodydd pwyllgorau ychwanegol

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Pobl a Threfniadaeth yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod Cyngor Sir Ceredigion ar hyn o bryd yn darlledu mwy na gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 o ran darlledu trafodion yng nghyfarfodydd y

Cyngor. Fodd bynnag, roedd Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi gofyn am ystyried ymestyn y ddarpariaeth hon i gynnwys cyfarfodydd pwyllgor ychwanegol.

Fe nododd bod papur trafod wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024. Ystyriwyd y gofynion ychwanegol y byddai hyn yn ei olygu i Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd, ac ystyriwyd hefyd yr adborth a dderbyniwyd wrth Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru a argymhellodd i'r Swyddog Monitro neu'r Dirprwy i fod yn bresennol yn yr holl gyfarfodydd sy'n cael eu darlledu. Ystyriwyd hefyd gallu'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy i fynychu'r cyfarfodydd. Oherwydd hyn, argymhellwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd bod y ddarpariaeth yn ehangu i gynnwys cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu o fis Mai 2024, ac i ystyried ehangu'r ddarpariaeth i gynnwys y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu pan fydd y capasiti yn caniatáu iddynt wneud hynny. Nododd hefyd bod y Cyngor dan bwysau gan Archwilio Cymru i ymestyn y ddarpariaeth hon.

Nododd y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y bu trafodaeth hir gan Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac er bod awydd i weld yr holl gyfarfodydd yn cael eu darlledu y byddai'n amhosibl o ran capasiti'r Swyddogion.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo bod y ddarpariaeth ar gyfer darlledu cyfarfodydd yn cael ei hymestyn i gynnwys y Pwyllgor Rheoli Datblygu o fis Mai 2024.

9 Adroddiad y Swyddog Arweinol Corfforaethol: Y Gyfraith a Llywodraethu a Swyddog Monitro ar y Fframwaith Llywodraethu

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, y Gyfraith a Llywodraethu yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi, yn dilyn adolygiad o ddogfennau llywodraethu'r Cyngor, y cytunwyd y byddai Fframwaith Llywodraethu yn cael ei greu i weithredu fel dogfen gyffredinol sy'n cwmpasu trefniadau llywodraethu'r Cyngor ac i gymryd lle'r Cod Lleol cyfredol ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol.

Fe nododd fod y Fframwaith Llywodraethu drafft yn dangos y trefniadau sydd yn eu lle i sicrhau bod y canlyniadau arfaethedig ar gyfer pob rhanddeiliad yn cael eu diffinio a'u cyflawni, gan sicrhau hefyd bod y Cyngor bob amser yn gweithredu er budd y cyhoedd.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo'r Fframwaith Llywodraethu fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

10 Adroddiad y Swyddog Arweinol Corfforaethol: Y Gyfraith a Llywodraethu i gadarnhau apwyntiad Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, y Gyfraith a Llywodraethu yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cymeradwyo ail-benodi Alan Davies yn Gadeirydd, ac Andrew Blackmore yn Is-Gadeirydd o'r

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am gyfnod o ddwy flynedd o 17 Mai 2024 i 17 Mai 2026.

Gofynnodd y Cynghorydd Bryan Davies os byddai'r penodiadau hyn yn medru bod yn benagored. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod penodiadau am gyfnod o 6 blynedd yn gyntaf, gyda'r opsiwn i ymestyn am gyfnod pellach o 5 mlynedd. Mae penodiad y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael eu hadolygu bob dwy flynedd gyda chyfle i Aelod arall gamu i'r rôl neu i'w ymestyn.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo penodi Alan Davies yn Gadeirydd, ac Andrew Blackmore yn Is-Gadeirydd o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am gyfnod o ddwy flynedd o 17 Mai 2024 i 17 Mai 2026.

11 Ethol darpar Gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2024/25 i'w sefydlu yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhelir am 2.00 p.m. ddydd Gwener, 17 Mai 2024

Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Lloyd ac eiliwyd gan y Cynghorydd Rhodri Evans bod y Cynghorydd Keith Evans yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn Gyngor nesaf.

PENDERFYNWYD yn unfrydol bod y Cynghorydd Keith Evans yn cael ei ethol yn Gadeirydd Etholedig y Cyngor ar gyfer 2024/25 i'w sefydlu yn y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir am 2.00pm ar ddydd Gwener 17 Mai 2024.

12 Ethol darpar Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25 i'w sefydlu yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhelir am 2.00 p.m. ddydd Gwener, 17 Mai 2024

PENDERFYNWYD yn unfrydol bod y Cynghorydd Ann Bowen Morgan yn cael ei hethol yn Is-gadeirydd Etholedig y Cyngor ar gyfer 2024/25 i'w sefydlu yn y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir am 2.00pm ar ddydd Gwener 17 Mai 2024.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 18 Gorffennaf 2024

CADEIRYDD: _____